# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 21AIN EBRILL, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Council Offices, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Ann Roberts**

**01286 679780**

**annelizabethroberts@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 13 Ebrill 2016)

# PWYLLGOR IAITH

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago
Elwyn Edwards
Alan Jones Evans
Gweno Glyn
Sian Gwenllian
Charles Wyn Jones
R. Hefin Williams
John Wyn Williams

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Thomas G. Ellis
Eric M. Jones
Eirwyn Williams
Elfed Williams

## Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd
Owain Williams

## Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Aelod Cabinet – Y Gymraeg

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 1 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Ionawr, 2016 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET - Y GYMRAEG

Cyflwyno adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – y Gymraeg.

## 6. CWYNION IAITH 6 - 7

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith (ynghlwm).

## 7. SAFONAU IAITH A PHOLISI IAITH I'R CYNGOR (MATERION CYFLOGAETH) 8 - 18

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol

# PWYLLGOR IAITH DYDD IAU, 14 IONAWR 2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Gweno Glyn (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Charles W.Jones, Eric M. Jones, Sion Jones, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni), Meilys Heulfryn Smith (Uwch Reolwr Busnes), Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith), Catrin Parri (Swyddog Datblygu Gweithlu / Cyd-gysylltydd Iaith Gymraeg) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Croesawyd y Cynghorydd Owain Williams i'r cyfarfod.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd John Wyn Williams fuddiant personol yn eitem 9 ar y rhaglen – Diweddariad ar Gyfarfod gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd - oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd CCG.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2015 fel rhai cywir.

**3. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG**

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y canlynol:-

- Y cadarnhad amodol o lwyddiant y grant hyrwyddo defnydd y Gymraeg.
- Y gwaith o sefydlu'r ganolfan iaith newydd ym Mangor.
- Cynhadledd ar yr 22ain o Ionawr yn Llanrwst i lansio'r Siarter Iaith ar draws y siroedd y Gogledd.
- Cynhadledd ar y 13eg o Ionawr a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad ar fframwaith strategaeth olynol ar y cynllun Mwy na Geiriau.
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar newidiadau arfaethedig i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 sy'n ymwneud â Chynllunio a'r Gymraeg.
- Y bwriad i feithrin perthynas gyda'r Dr Rhian Hodges a'r Dr Cynog Prys o Brifysgol Bangor, sy'n arbenigwyr ar bolisi a chynllunio ieithyddol.
- Trafodaethau ar y Safonau Iaith a'u heffaith ar Bolisi Iaith y Cyngor.
- Y bwriad i gyflwyno argymhellion yr Ymchwiliad Iaith – Defnydd o'r Gymraeg mewn Cyfarfodydd Allanol i'r Cabinet ar y 19eg o Ionawr i'w mabwysiadu ac i weithredu arnynt.

Trafodwyd y materion a ganlyn:-

(A) Ymgynghoriad TAN 20

Nododd yr Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni:-

- Y bwriadai'r Adran Gynllunio drefnu seminar i'r aelodau ar bnawn yr 8fed o Fawrth er mwyn rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, y pwyllgor hwn ac eraill i geisio dylanwadu ar y canllaw cenedlaethol drwy gyfrannu eu sylwadau ar y newidiadau arfaethedig.
- Yn ogystal â hynny, bod yna ganllawiau lleol yn cael eu datblygu a bod yr Aelod Cabinet wedi datgan ei fwriad i drafod y canllaw lleol gyda'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r pwyllgor hwn.

Cytunwyd, er hwylustod, i gylchredeg linc i'r TAN 20 presennol ar wefan Llywodraeth Cymru i aelodau'r pwyllgor.

(B) Cyd-weithio gyda Phrifysgol Bangor

Holwyd a fyddai modd gwahodd yr arbenigwyr ar bolisi a chynllunio ieithyddol i gyfarfod y Pwyllgor Iaith. Atebodd yr Aelod Cabinet fod angen trafodaeth bellach gyda'r Brifysgol yn gyntaf i ridyllu'r deunydd academaidd er mwyn gweld beth sy'n berthnasol i'r Cyngor ac y gellid dod yn ôl at y Pwyllgor Iaith ar ôl datblygu'r drafodaeth ymhellach.

(C) Enwau Lleoedd

Nododd yr Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni:-

- Yn sgil y penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf i bwyso am gynnwys cymal ynglŷn â'r Gymraeg yn y Bil Amgylcheddol Hanesyddol, y derbyniwyd ymateb gan Gadeirydd y pwyllgor yn y Senedd sy'n trafod y bil yn datgan bod y bil wedi'i ddiwygio, ym mis Tachwedd 2015, i gynnwys adran sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru (sef adran 33 newydd i'r Bil).
- Bod y bil wedi'i ddiwygio hefyd i'w gwneud yn ofynnol i Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol (a fydd yn cael eu paratoi gan awdurdodau cynllunio lleol) ddarparu dull o gael gafael ar fanylion pob enw lle hanesyddol yn ardal yr awdurdod hwnnw sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr a gaiff ei llunio a'i chynnal gan Weinidogion Cymru.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Cytunwyd i aros i weld beth mae'r canllawiau'n ddweud ac ystyried bryd hynny sut y gall y Cyngor hwn a'r cymunedau lleol a'r cynghorau bro lleol gyfrannu at y broses.
- Cyfeiriodd aelod at amharodrwydd *Snowdonia Active* i ohebu yn Gymraeg a holwyd a oedd modd dwyn pwysau arnynt. Gofynnodd yr Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni i'r aelod yrru'r manylion perthnasol at y swyddogion, ond rhybuddiodd yr Aelod Cabinet na welai sut y gellid eu gorfodi gan mai cwmni preifat oeddent. Pwysleisiwyd yr angen i gefnogi cwmnïau i fod yn ddwyieithog, yn hytrach na phwyntio bys. Mewn ymateb, eglurodd yr Aelod Cabinet fod hynny'n rhan sylfaenol o waith Hunaniaith ac ymhelaethodd y Swyddog Datblygu Iaith ar y gwaith o gynghori'r sector fusnes gan nodi fod y sector awyr agored yn faes anodd gan eu bod yn gwasanaethu llawer o gwsmeriaid o'r tu allan i Gymru.

- Nodwyd y gellid hawlio grant gan y Bwrdd Iaith yn y dyddiau a fu i gael arwyddion Cymraeg ar fusnesau a faniau a nododd yr Uwch Reolwr - Democratiaeth a Chyflawni y byddai'r ymchwiliad iaith nesaf yn edrych ar weledEdd y Gymraeg a dylanwad y Cyngor ar hynny.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 4. CYFLWYNIAD GAN Y TÎM DYSGU A DATBLYGU

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Swyddog Datblygu Gweithlu / Cyd-gysylltydd Iaith Gymraeg ar y broses o ddatblygu staff di-gymraeg, gan gyfeirio at y sefyllfa bresennol, gwasgariad staff sy'n dysgu Cymraeg drwy'r sir, camau i gefnogi dysgwyr a'r ffordd ymlaen.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Trafodwyd :-

- Anhawster adnabod pobl yn y system gan nad ydy rheolwyr bob amser yn glir beth ydy'r lefel iaith ar gyfer y swydd, ac o ganlyniad dydy'r staff ddim yn cael eu cyfeirio am hyfforddiant iaith.
- Yr anhawster yn y maes gofal oherwydd y methiant i gyflawni'r gwasanaeth yn newis iaith y cleient o ganlyniad i anawsterau recriwtio staff. Nodwyd bod y sefyllfa'n well yng nghartrefi'r Cyngor nag mewn cartrefi preifat. Awgrymwyd nad oedd y cwmni sy'n darparu gofal ym Mhant yr Eithin, Harlech yn cyflawni gofynion y contract a chytunodd yr Uwch Reolwr Busnes i geisio cadarnhad o'r sefyllfa. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn yr ysgolion a'r colegau i gyfarch yr argyfwng recriwitio yn y maes gofal.
- Yr awdit mewnol o sgiliau ieithyddol y staff.

Diolchwyd i'r Swyddog Datblygu Gweithlu / Cyd-gysylltydd Iaith Gymraeg am y cyflwyniad ac am y drafodaeth.

## 5. MWY NA GEIRIAU

Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Busnes ar gynnydd y Grŵp Tasg Mwy na Geiriau, gan gyfeirio at:-

- Y cefndir i fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol a'r ymgynghoriad presennol ar fframwaith strategol olynol fyddai'n sail gryfach i arfogi'r meysydd gofal ac iechyd i weithredu'r strategaeth.
- Gwaith a chanfyddiadau'r Grŵp Tasg a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny. Eglurwyd nad oedd y Grŵp Tasg wedi cyfarfod ers Mai 2015 gan y bu'n aros am y Safonau Iaith newydd er mwyn cael eglurder, ond bod angen ail afael yn y grŵp bellach. Nodwyd hefyd bod angen ail-edrych ar aelodaeth y Grŵp Tasg er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol.
- Enghreifftiau o waith da sy'n digwydd yn y gymuned.
- Yr angen i newid y drefn monitro gan mai 2 swyddog yn unig sy'n cadw golwg dros 60-70 o gartrefi a 100 o ofalwyr cartref.
- Datblygiadau technolegol yn y maes, megis system dechnoleg gwybodaeth newydd sy'n cofnodi gwybodaeth cleientiaid a chyfieithu peirianyddol yn y maes iechyd a gofal.
- Y syniad o rannu adnoddau o ran gweithwyr gyda chynghorau eraill a gweld Mwy na Geiriau yn cael ei ledaenu ymhellach.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Trafodwyd :-

- Yr angen i roi blaenoriaeth i ddiwallu'r angen yng Ngwynedd am ofalwyr Cymraeg, neu unrhyw ofalwyr, drwy sefydlu cynllun o gydweithio gydag ysgolion a cholegau dros nifer o flynyddoedd. Nodwyd, serch hynny, bod yna lawer i fod yn falch ohono yng Ngwynedd a bod rhaid cynnal y momentwm hwnnw.
- Yr angen i gael mewnbwn ar lefel gorfforaethol i waith y Grŵp Tasg. Nodwyd bod yna lawer o weithgaredd yn y maes ar lefel lleol a rhanbarthol, ond nad oedd cynllun yn ei le ar gyfer ymateb i'r broblem.
- Yr angen i ymateb i'r ymgynghoriad ar y fframwaith strategol olynol. Nodwyd bod yr egwyddorion sylfaenol yn gadarn iawn ynddo, ond mai'r gweithredu oedd y broblem. Gofynnwyd i'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu anfon linc i'r ddogfen at yr aelodau ac erfyniodd yr Uwch Reolwr Busnes ar bawb i gymryd yr amser i ddarllen y ddogfen ac ymateb iddi cyn y dyddiad cau, sef 28 Chwefror.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Gofyn i'r Aelod Cabinet y Gymraeg, ar y cyd â'r Aelod Cabinet Gofal, gynnal trafodaeth gyda Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol, sy'n arwain ar y prosiect hwn, er mwyn gweld sut y gellir clymu Mwy na Geiriau gydag unrhyw strategaeth arall sydd gan y Cyngor i ddarparu yn y maes gofal, ystyried beth mae'r Grŵp Tasg wedi'i wneud hyd yma a beth sydd angen iddo'i wneud, a dod ag adroddiad yn ôl i'r pwyllgor hwn.**

**(b) Bod yr aelodau yn cyflwyno unrhyw sylwadau ar y fframwaith strategaeth olynol i sylw'r Uwch Reolwr Busnes cyn 28 Chwefror.**

Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Busnes am y cyflwyniad ac am y drafodaeth.

## 6. SAFONAU IAITH A PHOLISI IAITH I'R CYNGOR

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr (Democratiaeth a Chyflawni) yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor ar bolisi iaith drafft i'r Cyngor cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 3 Mawrth er mwyn ei fabwysiadu.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Pwysleisiwyd bod yr isafswm a osodir gan y Safonau yn rhy isel i gyfarch uchelgais y Cyngor hwn ar gyfer yr iaith Gymraeg mewn sawl un o'r meysydd ac na ddymunid gweld gwanhau sefyllfa bresennol y Cyngor.
- Mewn ymateb i sylw bod y fersiwn Saesneg o wefan y Cyngor yn cael ei chynnig gyntaf wrth chwilio am Gyngor Gwynedd ar beiriannau chwilio, eglurodd y Swyddog Datblygu Iaith y credai mai cwcis y defnyddiwr unigol oedd yn achosi i'r wefan fynd i'r dudalen Saesneg yn lle'r Gymraeg. Holwyd a oedd modd mynd ar ôl hynny eto a chytunodd yr Aelod Cabinet i wneud ymholiadau.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Gan fod paragraffau 3.1 a 3.3 o'r polisi yn cyfeirio at gyfrannu mewn cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, dileu paragraff 3.1 a mewnosod paragraff 3.3 fel paragraff 3.1 newydd.**

**(b) Gofyn i'r Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni holi'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol oes yna amserlen o ran pryd y disgwylir i berson di-gymraeg sy'n cael ei benodi i swydd ddysgu'r iaith a beth sy'n digwydd os nad yw'r person hwnnw'n cyrraedd y gofynion o fewn yr amserlen, er mwyn cyflwyno'r polisi i'r Cyngor llawn ym Mawrth.**

## 7. DIWEDDARIAD AR GYFARFOD GYDA CHARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn cyflwyno diweddariad ar gyfarfod gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd yn sgil cŵyn a dderbyniodd y Pwyllgor Iaith ynglŷn â

gweithrediad CCG o'u Cynllun Iaith a'u bwriad i hysbysebu dwy swydd uwch reolwr heb i'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil hanfodol.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Pwysleisiwyd nad oedd y ddirprwyaeth fu'n trafod gyda Phrif Weithredwr CCG yn derbyn yr anawsterau a mynegwyd gwrthwynebiad llwyr i benderfyniad y cwmni i fynd yn groes i'w polisi a'u cynllun iaith eu hunain.
- Nodwyd y dylid gofyn i CCG am sicrwydd ysgrifenedig nad ydynt am fynd yn groes i'w polisi iaith yn y dyfodol; y bydd y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer swydd y Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau, fydd yn cael ei hysbysebu'n fuan, a bod y ddau uwch reolwr di-gymraeg a benodwyd yn 2015 yn dysgu Cymraeg.
- Awgrymwyd bod cyfrifoldeb ar gynghorwyr a phobl yn gyffredinol i geisio cyfeirio'r bobl gywir at y mathau hyn o swyddi.
- Nodwyd, o safbwynt y Cyngor, bod rhaid sicrhau bod unrhyw gytundebau gyda'r trydydd sector, neu bwy bynnag, yn ei gwneud yn hollol glir bod raid i'r cyrff hynny ymlynu at eu polisïau iaith ac y byddai'n fuddiol cael diweddariad ar hynny wrth i ddyletswyddau neu gyfrifoldebau drosglwyddo i gyrff eraill yn sgil unrhyw doriadau.
- Nodwyd bod swyddogion y Comisiynydd Iaith yn gwneud darn o waith ar oblygiadau allanoli gwasanaethau i'r iaith Gymraeg ac y byddai'n fuddiol cyflwyno'r gwaith hwnnw i'r pwyllgor er mwyn iddo fod yn ffactor fydd yn fyw ym meddyliau'r Cyngor wrth iddynt orfod gwneud penderfyniadau i allanoli.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Gofyn i'r Swyddog Datblygu Iaith drefnu cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd i drafod y cyfleoedd a'r pryderon uchod, gan ofyn yn benodol am sicrwydd ysgrifenedig ganddynt:-**

- **Nad ydynt am fynd yn groes i'w polisi iaith yn y dyfodol.**
- **Y bydd y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer swydd y Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau, fydd yn cael ei hysbysebu'n fuan.**
- **Bod y ddau uwch reolwr di-gymraeg a benodwyd yn 2015 yn dysgu Cymraeg.**

**(b) Adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn ar ganlyniadau gwaith y Comisiynydd Iaith ar oblygiadau allanoli gwasanaethau i'r iaith Gymraeg.**

## 8. CWYNION IAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 1.20 y.h.

**CADEIRYDD**

# Eitem 6

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | 21 Ebrill 2016 |
| **TEITL:** | CWYNION IAITH |
| **AWDUR:** | GWENLLIAN MAIR WILLIAMS<br>SWYDDOG DATBLYGU IAITH |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR. |

**CWYNION FFURFIOL YN ERBYN Y CYNLLUN IAITH**

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB. |
|---|---|---|
| | | |
| **Ionawr 2016** | *Cyfeiriwyd at yr uned er gwybodaeth*: cwyn am fod yr Adran Budd-daliadau wedi anfon llythyr uniaith Saesneg at drigolyn. | Ymchwiliodd rheolwr y gwasanaeth i'r mater a chanfod mai camgymeriad oedd hyn ar ran un o'r swyddogion. Anfonodd ymddiheuriad i'r achwynydd, gan gadarnhau bod cyfarwyddiadau clir yn cael eu rhoi i swyddogion am sut i ymateb i ddewis iaith, ac yn rhoi addewid i anfon ffurflenni uniaith Gymraeg yn y dyfodol. |
| | | |

**CWYNION ANFFURFIOL / YMHOLIADAU**

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB. |
|---|---|---|
| | | |
| **Chwefror 2016** | Derbyniwyd ymholiad am natur y cytundebau gwasanaeth gyda dau gaffi sydd yn cael eu rhedeg mewn adeiladau sydd yn eiddo i'r Cyngor.<br><br>1. Caffi Seibiant@Storiel : roedd y caffi wedi bod yn postio yn uniaith Saesneg ar eu tudalen facebook.<br><br>2. Caffi Canolfan Hamdden Glaslyn : Staff di-Gymraeg | Edrychwyd ar y cytundebau presennol gyda'r ddau gaffi. Cadarnhawyd bod y ddau gytundeb yn gofyn am staff sydd yn siarad Cymraeg ac iddynt arddangos arwyddion dwyieithog.<br>Nid oedd y cytundeb yn gosod canllaw ar gyfer iaith marchnata.<br><br>Roedd ymholiad hefyd wedi ei dderbyn gan aelodau Menter Iaith Bangor am y caffi hwn, a phenderfynwyd delio gyda'r mater mewn ffordd eithaf anffurfiol. Cafwyd sgwrs gyda'r perchennog, a chael gwybod ei bod yn ymwybodol o'r gwyn am y dudalen facebook. Cadarnhawyd bod staff yr Oriel yn rhoi help iddi allu postio a chynhyrchu'r bwydlenni ac arwyddion yn ddwyieithog. Rhannwyd adnoddau iaith gwaith ar gyfer staff y caffi, ac aethpwyd yno i gynnal sesiwn ymwybyddiaeth iaith gyda 5 o'r staff. Bydd staff yr oriel a Menter Iaith Bangor yn gallu cynnig cefnogaeth yn y dyfodol.<br><br>Anfonwyd llythyr at berchnogion y les yn eu hatgoffa o'r amodau yn y cytundeb gyda'r Cyngor. Ni chafwyd ymateb hyd yma, ond bydd angen sgwrs bellach gyda phennaeth y gwasanaeth Hamdden er mwyn cytuno ar sut i ddelio gyda'r mater os na fydd newid. |
| **Chwefror 2016** | Ymholiad am enw Saesneg yn | Wedi ymchwilio i'r mater, nid yw'n glir pa bryd y |

| | | |
|---|---|---|
| | cael ei ddefnyddio ar fap yr Arolwg Ordnans, sef Black Rock Sands.<br>Roedd yr ymholydd wedi cysylltu gyda AO i holi pan fod enw Saesneg yn cael ei ddefnyddio a hwythau wedi ymateb mai dyna oedd yr enw "lleol" oedd wedi ei gymeradwyo gan Gyngor Gwynedd. | cytunwyd i ddefnyddio'r enw Saesneg.<br>Yn dilyn yr ymholiad gwreiddiol i'r AO ym mis Ionawr 2016, bu i un o aelodau eu tîm ymchwil data gysylltu â Chyngor Gwynedd a chael cadarnhad mai'r fersiwn Saesneg o'r enw oedd yn cael ei ddefnyddio yn gyffredin yn lleol.<br>Nid oedd AO yn gallu cadarnhau pwy oedd y cyswllt yn y Cyngor, ond mae'n ymddangos eu bod wedi cymryd y cadarnhad o'r enw Saesneg fel caniatâd i'w ddefnyddio yn hytrach nag enw Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR IAITH |
| **DYDDIAD:** | EBRILL 21AIN 2016 |
| **TEITL:** | POLISI IAITH |
| **AWDUR:** | GERAINT OWEN, PENNAETH CEFNOGAETH GORFFORAETHOL |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | AMLINELLU TREFNIADAU AR GYFER GWEITHREDU GOFYNION Y POLISI IAITH YM MAES RECRIWTIO A PENODI |

**CEFNDIR**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ar Ionawr 14eg eleni, cyflwynwyd adroddiad yn gwahodd sylwadau'r aelodau ar bolisi iaith drafft ar gyfer y Cyngor cyn i'r drafft terfynol gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu.

Bu i'r Cyngor fabwysiadu'r polisi yn ei gyfarfod ar Fawrth 3ydd ac yn ystod y drafodaeth yno ac yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith yn Ionawr, cyflwynwyd sylwadau ynglŷn â threfniadau ac amserlen ar gyfer staff di-Gymraeg yn dysgu'r Gymraeg i'r lefel briodol.

Mae penderfyniad y Pwyllgor Iaith ar Ionawr 14eg yn gofyn i'r Uwch Reolwr ofyn i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, "oes yna amserlen o ran pryd y disgwylir i berson di-Gymraeg sy'n cael ei benodi i swydd ddysgu'r iaith a beth sy'n digwydd os nad yw'r person hwnnw yn cyrraedd y gofynion o fewn yr amserlen".

Yn yr un cyfarfod derbyniodd aelodau'r Pwyllgor gyflwyniad gan y Swyddog Datblygu Gweithlu/Cyd-gysylltydd Iaith Gymraeg ar y gefnogaeth a ddarperir i staff er mwyn dysgu'r Gymraeg a'r trafferthion a wynebir yn hynny o beth e.e aneglurder ynglŷn â lefel iaith ar gyfer swydd a'r diffyg cyfeiriad am hyfforddiant iaith o ganlyniad.

**DYNODIAD IEITHYDDOL SWYDDI**

Yn unol â'r gofyn yn y Polisi Iaith (a'r cyn Gynllun Iaith), mae gan bob swydd o fewn y Cyngor ddynodiad lefel iaith (gweler y Fframwaith yn Atodiad 1). Mae'r dynodiad yn adnabod y gallu ieithyddol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, sydd ei angen er mwyn cyflawni gofynion y swydd benodol a hynny o dan dri phennawd h.y. gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifennu.

Dynodir y lefel ieithyddol ar gyfer pob pennawd fel;

Elfennol
Canolig
Gallu
Rhugl

ac mae eglurhad byr yn cadarnhau beth a olygir yn ymarferol. Fodd bynnag mae yna dystiolaeth nad oes ystyriaeth ddigonol yn cael ei roi cyn dynodi'r lefel iaith briodol ar gyfer swyddi e.e. dynodiad "rhugl" ar gyfer swydd ple nad oes gofyn i gyflwyno adroddiadau ysgrifenedig.

Hyd yn oed pan fo'r lefel ieithyddol briodol yn cael ei adnabod a bod angen i'r unigolyn a benodir ddysgu neu loywi'r Gymraeg i gyrraedd y lefel berthnasol, nid oes meini prawf cydnabyddedig yn perthyn i'r lefelau presennol ac mae unrhyw asesiad yn ddibynnol i raddau helaeth ar ddehongliad a barn proffesiynol y Cyd-gysylltydd mewn ymgynghoriad hefo'r rheolwr llinell.

Yn sgîl hyn oll, mae gwaith ar y gweill i geisio unioni'r sefyllfa trwy, yn y lle cyntaf, bennu lefelau iaith ymarferol sy'n cyd-fynd hefo lefelau iaith CBAC Cymraeg i Oedolion sef Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch (gweler Atodiad 2).

Byddai cytuno'n derfynol ar y diffiniadau hyn nid yn unig yn cynnig arweiniad gwell i reolwyr ar gyfer dynodi lefelau ieithyddol priodol ond hefyd yn cynnig safonau cydnabyddedig ar gyfer mesur y cynnydd a chyrhaeddiad unigolyn.

Cyfeiriwyd yn y cofnod o gyfarfod Ionawr 14[eg] 2016 at amserlen ar gyfer dysgu'r Gymraeg i'r lefel briodol. Nid oes amserlen benodol yn cael ei gosod ar gyfer dysgwyr ond defnyddir canllawiau Cymraeg i Oedolion, sydd eu hunain yn cydnabod bod amserlen addas ar gyfer gwahanol unigolion yn gorfod bod yn hyblyg ac yn amrywio h.y. fel canllaw, defnyddir y canlynol;

Mynediad – 120 awr
Sylfaen – 120 awr
Canolradd – 240 awr
Uwch – 360 awr

Byddai hyn yn gyfanswm o 840 awr i unigolyn a benodir i swydd ple bo angen bod yn rhugl yn y Gymraeg a phle na fyddai gan y swyddog unrhyw allu i gyfathrebu yn y Gymraeg cyn hynny.

Dyma ddyfyniad gan un o ddarparwyr cyrsiau Cymraeg i Oedolion;

"*Roedden ni'n arfer perswadio pobl i wneud Sylfaen ar ôl dwy flynedd o Wlpan, ond dan ni'n gweld hynny fel nod rhy uchelgeisiol i'r mwyafrif erbyn hyn.* ***Ar ddiwedd eu trydedd flwyddyn mae'r rhan fwya o ddysgwyr yn gwneud Sylfaen*** *y dyddiau hyn, ac wedyn* ***Canolradd ar ddiwedd y bedwaredd****.*

Mae'r arweiniad arbenigol felly yn awgrymu na ddylid bod yn gosod cyfyngiadau amser penodol a bod lle i fod yn hyblyg os am weld unigolion yn llwyddo.

**TANBERFFORMIAD**

Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen cyfarch sefyllfaoedd i'r dyfodol ple nad yw'r cyrhaeddiad yn dderbyniol a hynny yn yr un modd ag y byddai'r Cyngor yn ymdrin â thanberfformiad yng nghyswllt unrhyw agwedd arall o waith swyddogion unigol (gweler gopi o'r Polisi Ymdrin â Thanberfformio o fewn yr amodau gwaith lleol).

Nôd y polisi yw gwella'r perfformiad ac adnabod camau i'w cymryd a thargedau i'w cyflawni pan fo diffyg gallu i gynnal cyfrifoldebau yn effeithiol yn pery pryder.

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn cyflwyno sylwadau ar y trefniadau presennol ac arfaethedig a datgan cefnogaeth i'r cyfeiriad cyffredinol a gynigir.

## Fframwaith ar gyfer Dynodi Lefel Ieithyddol Swyddi a Staff

| | Elfennol GS1 | Canolig GS2 | Gallu GS3 | Rhugl GSRh |
|---|---|---|---|---|
| **Gwrando a Siarad** | Gallu dilyn cyfarwyddiadau a deall rhediad sgwrs syml drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar faterion cyfarwydd ac ymateb i geisiadau syml am wybodaeth | Gallu cynnal sgwrs syml drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyd-destun pob dydd y swydd gan ddefnyddio geirfa benodol sy'n codi'n rheolaidd er mwyn cyflwyno gwybodaeth ac i drafod achosion arbennig.<br><br>Os yn berthnasol<br>Gallu cyflwyno gwybodaeth syml drwy gyfwng y Gymraeg a'r Saesneg sydd wedi'i baratoi o flaen llaw ac ymateb i gwestiynau | . Gallu dilyn sgwrs neu drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel broffesiynol a thrafod pynciau cyffredinol bob dydd yn y maes er mwyn cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn<br><br>Os yn berthnasol<br>Gallu darparu cyflwyniad wedi'i baratoi o flaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau arno drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg | Gallu cyflwyno pob agwedd o'r swydd ar lafar yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gystal â'i gilydd. |
| | **D1** | **D2** | **D3** | **DRh** |
| **Darllen a Deall** | Gallu darllen a deall llythyrau, negeseuon, taflenni, arwyddion ac erthyglau syml drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar faterion cyfarwydd bob dydd er mwyn eu trosglwyddo i berson arall. | Darllen a deall memoranda syml a thaflenni gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg sy'n ymwneud â'r swydd, a deall adroddiadau ar bwnc cyfarwydd mewn Cymraeg clir | Gallu cael gwybodaeth o amrywiol ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyflawni'r swydd. | Gallu defnyddio a dehongli'n gywir unrhyw wybodaeth o amrywiol ffynonellau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyflawni holl agweddau'r swydd. |
| | **Y1** | **Y2** | **Y3** | **YRh** |
| **Ysgrifennu** | Gallu llenwi ffurflen safonol a llunio llythyr neu femo byr drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg drwy ddefnyddio cyfres o frawddegau allweddol i gyfleu gwybodaeth syml. | Gallu ysgrifennu llythyrau, memoranda ac adroddiadau byr drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio geirfa ac ymadroddion syml sy'n gyfarwydd i'r maes gwaith. | Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig gyda hyder ar ffurf llythyr, adroddiad mwy manwl a thechnegol ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. (Mae'n bosib cael cymorth i wirio'r iaith) | Gallu cyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn modd gwbl hyderus gan ddefnyddio'r dull a'r iaith fwyaf priodol ar gyfer y pwnc a'r gynulleidfa. |

<u>RHUGL</u>

**Gwrando a Siarad**
Gallu cyflwyno pob agwedd o'r swydd ar lafar yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gystal â'i gilydd.

**Darllen a Deall**
Gallu defnyddio a dehongli'n gywir unrhyw wybodaeth o amrywiol ffynonellau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyflawni holl agweddau'r swydd.

**Ysgrifennu**
Gallu cyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn modd gwbl hyderus gan ddefnyddio'r dull a'r iaith fwyaf priodol ar gyfer y pwnc a'r gynulleidfa.

# Fframwaith ar gyfer dynodi Lefel Ieithyddol Swyddi a Staff

| | Elfennol | Canolig | Gallu | Rhugl |
|---|---|---|---|---|
| **Gwrando a Siarad** | **GS1**<br>**Lefel Mynediad** | **GS2**<br>**Lefel Sylfaen** | **GS3**<br>**Lefel Canolradd/Uwch** | **GSRH**<br>**Lefel Uwch +** |
| | Gallu dilyn cyfarwyddiadau a deall rhediad sgwrs syml drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar faterion cyfarwydd ac ymateb i geisiadau syml am wybodaeth | Gallu cynnal sgwrs syml drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyd-destun pob dydd y swydd gan ddefnyddio geirfa benodol sy'n codi'n rheolaidd er mwyn cyflwyno gwybodaeth ac i drafod achosion arbennig.<br>Os yn berthnasol Gallu cyflwyno gwybodaeth syml drwy gyfwng y Gymraeg a'r Saesneg sydd wedi'i baratoi o flaen llaw ac ymateb i gwestiynau | Gallu dilyn sgwrs neu drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel broffesiynol a thrafod pynciau cyffredinol bob dydd yn y maes er mwyn cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn<br>Os yn berthnasol Gallu darparu cyflwyniad wedi'i baratoi o flaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau arno drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg | Gallu cyflwyno pob agwedd o'r swydd ar lafar yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gystal â'i gilydd. |
| **Darllen a Deall** | **D1**<br>**Lefel Mynediad** | **D2**<br>**Lefel Sylfaen/Canolradd** | **D3**<br>**Lefel Canolradd/Uwch** | **DRh**<br>**Lefel Uwch +** |
| | Gallu darllen a deall llythyrau, negeseuon, taflenni, arwyddion ac erthyglau syml drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar faterion cyfarwydd bob dydd er mwyn eu trosglwyddo i berson arall. | Darllen a deall memoranda syml a thaflenni gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg sy'n ymwneud â'r swydd, a deall adroddiadau ar bwnc cyfarwydd mewn Cymraeg clir. | Gallu cael gwybodaeth o amrywiol ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyflawni'r swydd. | Gallu defnyddio a dehongli'n gywir unrhyw wybodaeth o amrywiol ffynonellau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyflawni holl agweddau'r swydd. |
| **Ysgrifennu** | **Y1**<br>**Lefel Sylfaen** | **Y2**<br>**Lefel Canolradd** | **Y3**<br>**Lefel Uwch** | **YRh**<br>**Lefel Uwch +** |
| | Gallu llenwi ffurflen safonol a llunio llythyr neu femo byr drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg drwy ddefnyddio cyfres o frawddegau allweddol i gyfleu gwybodaeth syml. | Gallu ysgrifennu llythyrau, memoranda ac adroddiadau byr drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio geirfa ac ymadroddion syml sy'n gyfarwydd i'r maes gwaith. | Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig gyda hyder ar ffurf llythyr, adroddiad mwy manwl a thechnegol ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. (Mae'n bosib cael cymorth i wirio'r iaith) | Gallu cyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn modd gwbl hyderus gan ddefnyddio'r dull a'r iaith fwyaf priodol ar gyfer y pwnc a'r gynulleidfa. |

# 2.3 YMDRIN Â THANBERFFORMIO

## 1.0 DATGANIAD POLISI

1.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o'r safon uchaf i drigolion Gwynedd. Er mwyn ei alluogi i ddarparu'r gwasanaethau hynny mae'n hanfodol bod y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i'r gweithlu'n gyson fel ei fod yn perfformio i'w lawn botensial. Golyga hynny bod angen meithrin diwylliant o wella parhaus sy'n annog pob aelod staff i gymryd cyfrifoldeb am ei berfformiad/pherfformiad ei hun.

1.2 Er mwyn cefnogi'r diwylliant hwn a gyrru gwelliannau mewn perfformiad, mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol a system werthuso gorfforaethol yn eu lle. Mae'r strwythurau hyn yn galluogi aelodau staff i ddeall sut mae eu perfformiad yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Gwasanaeth a thrwy hynny gyfrannu at y broses o wella'n barhaus.

1.3 Yn y cyswllt hwn, mae'r Cyngor yn cydnabod fod y mwyafrif o aelodau staff yn perfformio i'r lefel dderbyniol o leiaf. Fodd bynnag, mae'n cydnabod hefyd y bydd sefyllfaoedd yn codi pan fo aelodau staff unigol yn methu â pherfformio i'r safon ofynnol. Mae'r polisi hwn ar gyfer Ymdrin â Thanberfformio yn esbonio sut fydd y Cyngor yn delio â sefyllfaoedd o'r fath gyda'r prif fwriad o gynorthwyo unigolyn i gyflawni a chadw at safon perfformiad derbyniol.

1.4 Prif fwriad y polisi hwn yw rhoi fframwaith yn ei lle i reolwyr llinell fel y gallant gynorthwyo aelodau staff nad ydynt yn perfformio i'r safon dderbyniol yn unol â'r safonau corfforaethol. Bydd yn cael ei ddefnyddio i adnabod problemau perfformio a chytuno ar gamau â'r aelod staff er mwyn datrys y problemau hynny.

1.5 Ni fydd materion sy'n ymwneud â thanberfformio yn cael eu hanwybyddu. Bydd rheolwyr llinell yn delio â materion o'r fath mewn modd cyflym ac effeithlon. Bydd pob amserlen yn cael ei dilyn er mwyn sicrhau cyn lleied o anesmwythyd ac amhariad â phosib i bob un sydd ynghlwm â'r achos ac hefyd er mwyn ceisio sicrhau fod yr aelod staff yn perfformio i'r safon ddisgwyliedig cyn gynted â phosib.

1.6 Bydd y polisi yn cael ei weithredu mewn modd teg, trefnus, a chyson, waeth beth fo oedran, hil, crefydd neu gred, rhyw, tueddfryd rhywiol, anabledd neu genedligrwydd y person(au) dan sylw.

1.7 **Ni fydd y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio i ddelio â sefyllfaoedd pan fo aelod staff wedi'i ardystio gan feddyg fel unigolyn sydd ar gyfnod o absenoldeb salwch tymor hir. Mae trefn benodol wedi'i chreu ar gyfer sefyllfa o'r fath, yn unol â'r Drefn Rheoli Absenoldebau Salwch.**

1.8 Mae'r polisi yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Rheoliadau Cyflogaeth (Datrys Anghydfod) 2004 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 2.0 Y PERSONAU Y MAE'R POLISI HWN YN BERTHNASOL IDDYNT

2.1 Bydd y polisi hwn yn berthnasol i'r holl aelodau staff, ar wahân i'r Penaethiaid Adran, y Cyfarwyddwyr Strategol, y Prif Weithredwr a staff sy’n cael eu rheoleiddio gan Lywodraethwyr Ysgol.

## 3.0 EGWYDDORION SYLFAENOL

3.1 Bwriad y polisi Ymdrin â Thanberfformio hwn yw sicrhau fod rheolwyr llinell:

- yn gosod meini prawf eglur ar gyfer perfformiad
- yn monitro perfformiad
- yn gyson wrth roi cyfleoedd i aelodau staff sydd â chyfrifoldebau a dyletswyddau cwbl wahanol i gyflawni a chynnal lefel dderbyniol o berfformiad
- yn rhoi cefnogaeth, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol, i'r rhai hynny nad ydynt yn perfformio i'r safon dderbyniol, a hynny trwy adnabod y dull(iau) mwyaf addas o ddarparu a rhoi cefnogaeth

3.2 Os nad oes cynnydd ym mherfformiad yr aelod staff, bydd unrhyw weithredu dilynol posib yn cael ei seilio ar:

- dystiolaeth ddigonol na all yr aelod staff berfformio ei (d)dyletswyddau i safon dderbyniol
- trefn deg, sy'n sefydlu'r rhesymau dros danberfformio
- y ffaith fod yr aelod staff wedi derbyn pob cymorth sy'n rhesymol bosib er mwyn datrys y broblem tanberfformio

3.3 Er mwyn lleihau'r risg o danberfformio bydd y Cyngor, yn unol â'r polisïau perthnasol, yn recriwtio, penodi a hyfforddi ei weithlu gyda'r gofal mwyaf, yn ogystal â sicrhau bod staff sydd ar gyfnod prawf yn cael eu hasesu ar sail perfformiad.

3.4 Rheolwyr llinell sy'n gyfrifol am greu'r amgylchiadau fydd yn galluogi aelodau staff i berfformio i'r lefel ddisgwyliedig. Bydd y rheolwyr yn gyfrifol hefyd am ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i gynorthwyo'r aelodau staff i gyflawni i'w llawn botensial drwy eu goruchwylio a rhoi adborth iddynt. Mae hynny'n cynnwys sicrhau fod gan yr aelodau staff sydd yn eu gofal y sgiliau, yr wybodaeth a'r cyfarpar angenrheidiol i ymgymryd â'u dyletswyddau.

3.5 Gall amryw o ffactorau sydd tu hwnt i reolaeth yr aelod staff, ynghyd â ffactorau sydd yn ei reolaeth ef / rheolaeth hi, lesteirio neu atal cynnydd boddhaol mewn perfformiad. Bydd y polisi hwn yn ystyried yr holl neu rai o'r ffactorau a ganlyn:

**Ffactorau sydd tu hwnt i reolaeth yr aelod staff**

- Rheolaeth o safon annerbyniol
- Cynllun y swydd
- Awyrgylch gwaith
- Amgylchiadau personol (e.e. salwch dros dro, problemau personol)

**Ffactorau sy'n gallu bod yn rheolaeth yr aelod staff**

- Diffyg ymdrech

- Diffyg sgiliau
- Diffyg gallu
- Ymddygiad annerbyniol

3.6 Os oes achos o danberfformio yn dod i'r amlwg, bydd y rheolwr llinell yn ymdrin â'r broblem drwy ystyried yr opsiynau a ganlyn. Bydd y cam a gymerir yn dibynnu'n llwyr ar ba ffactor sy'n effeithio ar berfformiad yr aelod staff.

- Cwnsela
- Mentora
- Hyfforddi neu Ailhyfforddi
- Adleoli
- Trefn Ddisgyblu
- Panel Gwrandawiad Tanberfformio

## 4.0 STRWYTHURAU FFURFIOL AR GYFER GOSOD SAFONAU PERFFORMIAD AC YMDRIN Â THANBERFFORMIO

4.1 Mae gan y Cyngor strwythurau ffurfiol yn eu lle i ymdrin â materion perfformio. Mae'r strwythurau hyn yn atgyfnerthu a chefnogi dyletswyddau'r rheolwr llinell o osod gwaith, monitro perfformiad, tynnu sylw at wallau a safon annerbyniol, yn ogystal â chanmol gwaith o safon uchel. Maent hefyd yn cefnogi Trefn Ymdrin â Thanberfformio'r Cyngor.

4.2 Bydd pob aelod staff newydd sy'n cael ei benodi/phenodi i swydd gyda'r Cyngor am y tro cyntaf yn ymgymryd â chyfnod anwytho dros y 6 mis cyntaf o gyflogaeth. Yn ystod yr ychydig ddyddiau cyntaf yn y swydd newydd bydd y rheolwr llinell yn sicrhau fod yr unigolyn yn gwbl ymwybodol o'r safonau perfformiad disgwyliedig a'i fod ef/hi yn eu deall fel y gall ef/hi ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Bydd y rheolwr llinell yn atgyfnerthu'r broses hon trwy gydol y cyfnod anwytho a hynny drwy asesu perfformiad yr aelod staff yn gyson.

4.3 Yn ogystal, bydd pob aelod staff newydd yn mynychu rhaglen anwytho gorfforaethol a fydd yn darparu gwybodaeth ynghylch y lefel perfformiad cyffredinol y mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl. Bydd pob aelod staff newydd yn mynychu'r rhaglen hon yn ystod eu misoedd cyntaf yng nghyflogaeth y Cyngor.

4.4 Cyfrifoldeb pob aelod staff unigol yw safon y gwaith y maent yn ei gynhyrchu ac felly safon y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

4.5 Trafodir perfformiad pob aelod staff unigol mewn gwerthusiad blynyddol i drafod perfformiad a gwelliannau. Cynhelir y cyfarfod hwn rhwng yr aelod staff unigol a'i reolwr/rheolwr llinell. Mae'r cyfarfod hwn yn galluogi'r aelod staff i drafod â'r rheolwr llinell ei gyfraniad/chyfraniad i berfformiad y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys trafod cryfderau a gwendidau'r aelod staff a chytuno ar dargedau ar gyfer gwella perfformiad ar gyfer y dyfodol. Bydd y broses hon yn

gonglfaen i'r polisi ar Ymdrin â Thanberfformio, gan y bydd yn rhoi cyfle ffurfiol i reolwr llinell atgyfnerthu'r safonau perfformiad sydd i'w disgwyl o'r aelod staff, yn rhoi'r cyfle i drafod perfformiad y flwyddyn a fu, ac yn rhoi'r cyfle i osod targedau ar gyfer gwella perfformiad ar gyfer y flwyddyn i ddod.

4.6 Fel rhan o gynllun gwerthuso perfformiad a gwelliannau'r Cyngor, bydd rheolwyr llinell yn cynnal adolygiad ffurfiol o berfformiad aelodau staff bob 6 mis.

## 5.0 GWRANDAWIAD TANBERFFORMIO FFURFIOL

5.1 Pan benderfynir cynnal Gwrandawiad Tanberfformio Ffurfiol, dylid trefnu'r gwrandawiad cyn gynted â phosib. Dylid rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r aelod staff a'i gynrychiolydd/chynrychiolydd, gan roi manylion y dyddiad, yr amser a'r lleoliad, ynghyd ag unrhyw gopïau o ddogfennau a ddefnyddir fel rhan o'r gwrandawiad. Dylai'r llythyr rybuddio'r aelod staff y gallai'r gwrandawiad arwain at ddiswyddiad yn dilyn cyfnod o rybudd.

5.2 Y Pennaeth Gwasanaeth fydd yn cadeirio'r gwrandawiad a bydd Rheolwr o'r Gwasanaeth a Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn aelodau o'r Panel. Bydd y rheolwr llinell yn cyflwyno'r achos, bydd y gweithiwr a'i gynrychiolydd/chynrychiolydd yn cael cyfle i ofyn cwestiynau yn dilyn cyflwyniad hwnnw, ac yna bydd yr aelod staff yn cael cyfle i amlinellu'r achos o'i safbwynt ef/hi. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth, Rheolwr o'r Gwasanaeth a'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn gofyn unrhyw gwestiynau sy'n codi o'r naill achos, a gellir galw tystion fel bo'r angen.

5.3 Wrth ddod i benderfyniad, bydd yr opsiynau fydd ar gael i'r Panel Gwrandawiad Tanberfformio yn cynnwys:

- peidio â chymryd unrhyw gamau pellach
- gosod targedau pellach ac adolygu mewn cyfnod penodol rhesymol
- tynnu hicyn
- ail-leoli pan fo hynny'n ymarferol bosib
- israddio
- diswyddo gyda rhybudd

5.4 Bydd y gwrandawiad yn cael ei ohirio wrth i'r Pennaeth Gwasanaeth, Rheolwr o'r Gwasanaeth a'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol ystyried y dystiolaeth a dod i benderfyniad. Bydd pawb wedyn yn ailymgynnull a bydd y gweithiwr a'i gynrychiolydd/chynrychiolydd yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad, ac os yw'n addas, yn derbyn cyngor ar yr hawl i apelio. Os penderfynir diswyddo'r aelod staff, bydd y rhybudd cytunedig yn cael ei roi gyda'r diswyddiad.

5.5 Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig i’r aelod staff o benderfyniad y gwrandawiad, a hynny o fewn 5 diwrnod gwaith.